IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 27 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Mackie a/ac Williams |

9 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

10 : CAIS I GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - TUDOR STREET

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Mr a Mrs Bakshish Singh<br>Mr Zdrovak |
| Pobl Eraill â Diddordeb: | Y Cynghorydd Iona Gordon<br>Jonathan Hill yn cynrychioli<br>Mr Llamuddin a Mr Patel |

Y Cais

Daeth cais am ganiatáu Trwydded Safle i law gan Mr Bakshish Singh ar gyfer 46 Tudor Street, Glan-Yr-Afon, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) O safbwynt y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Siop mewn safle sydd ag un llawr, a hynny ar y llawr gwaelod".

(3) Oni bai y nodir fel arall gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

O ddydd Llun i ddydd Sul: 07:00 tan 23:00

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

O ddydd Llun i ddydd Sul: 07:00 tan 23:00

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau a awgrymwyd yn sylwadau Heddlu De Cymru.

Sylwadau'r Bobl Eraill â Diddordeb

Siaradodd Mr Jonathan Hill â'r Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Hill fod y gwrthwynebiadau i'r cais wedi cael eu nodi yn y sylwadau ysgrifenedig ac nid oedd yn dymuno eu hailadrodd. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith bod nifer o siopau diodydd trwyddedig eisoes yn gwasanaethu'r ardal.

Codwyd pryderon ynghylch sbwriel yn casglu y tu allan i'r safle a diffyg mannau parcio yn yr ardal gyfagos.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Mr Ilmauddin yn rhedeg siop cyfleustra a bod ganddo drwydded safle ar gyfer gwerthu diodydd trwyddedig. Mae'r siop yn cau am 22:00, er y caniatawyd iddo werthu alcohol tan 23:00. Mae Mr Ilamuddin yn cau ei fusnes yn gynnar oherwydd pryderon diogelwch mewn perthynas â gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod garej gyfagos wedi gwneud cais am drwydded safle yn 2012 er mwyn gwerthu alcohol 24 awr y dydd. Cafodd y cais ei ddiwygio ar ôl hynny i gwtogi ar yr oriau a ganiateir. Fodd bynnag, cafodd y cais ei wrthod ar sail atal trosedd ac anrhefn ac er mwyn atal niwsans cyhoeddus.

Awgrymodd Mr Hill fod gormod o safleoedd trwyddedig yn yr un ardal yn denu pobl i'r ardal gan gynyddu meddwdod. Bydd busnesau hefyd yn ceisio cystadlu â'i gilydd o ran prisiau a bydd hyn, yn ei dro, yn denu rhagor o bobl. Mae effaith negyddol ar sbwriel, sŵn a niwsans cyhoeddus yn sgil hynny.

Awgrymodd Mr Hill fod posibilrwydd hefyd y bydd mwy o broblemau yn dod i safle Mr Ilamuddin, a chodwyd pryderon ynghylch diogelwch ei staff gan fod cwsmeriaid annymunol eisoes yn cael eu troi ymaith. Efallai na fyddai'r elfennau annymunol hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan fusnesau newydd yn yr ardal. Nododd Mr Hill fod ymateb Heddlu De Cymru i'r cais yn ffyddiog a bod yr ymateb yn ganlyniad o ymddygiad y masnachwyr presennol yn yr ardal.

Anogodd Mr Hill i'r Aelodau ystyried yr effaith y byddai caniatáu'r drwydded safle yn ei chael ar breswylwyr.

Siaradodd Mr Ilamuddin a Mr Patel â'r Is-bwyllgor. Mae'r ddau wedi bod yn masnachu yn yr ardal am dipyn o amser. Roeddynt yn ymwybodol o'r problemau penodol a oedd yn wynebu'r ardal. Mae nifer o hostelau a sefydliadau sy'n ymdrin â chamddefnyddio sylweddau neu broblemau caethiwed yn yr ardal gyfagos. Roeddynt yn ystyried y byddai safle arall yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Siaradodd y Cynghorydd Iona Gordon ar ran y trigolion lleol. Cododd y Cynghorydd Gordon bryderon ynghylch yr effaith y byddai caniatáu trwydded safle yn y lleoliad hwn yn ei chael ar yr amcanion trwyddedu. Mae'r safle gyferbyn â Litchfield Court, canolfan dai a reolir gan y Cyngor sy'n darparu llety i bobl sy'n gadael y carchar a/neu bobl ddigartref. Mae hostelau gerllaw hefyd yn Fitzhammon Embankment, Clare Gardens a Clare Road. Mae preswylwyr yn y llety hwn yn aml yn cael eu trin am broblemau iechyd meddwl, yn ogystal â phroblemau caethiwed. Ystyriodd y Cynghorydd Gordon y byddai rhagor o safleoedd gwerthu diodydd trwyddedig yn yr ardal hon yn gwaethygu'r problemau posibl.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Is-bwyllgor, nododd y Cynghorydd Gordon nad oedd modd iddi roi unrhyw dystiolaeth i brofi nad oedd yr ymgeiswyr yn bobl gyfrifol.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Singh y cais. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r safle'n gweithredu o fewn y gyfraith gan ddilyn yr holl reoliadau. Roedd yr ymgeiswyr yn deall yr amodau trwyddedu a byddant yn cydymffurfio â hwy.

Fel menter busnes newydd, ymrwymwyd i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau rheoliadol a busnesau eraill yn yr ardal er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw effaith negyddol ar breswylwyr ac i ddiogelu grwpiau o bobl fregus. Gofynnodd Mrs Singh am gyfle i brofi y gall y busnes gydymffurfio â'r rheoliadau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r siop yn gwerthu bwyd a nwyddau'r tŷ yn ogystal ag alcohol. Byddai'r safle yn siop cyfleustra yn bennaf.

Wrth ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd Mrs Singh eu bod yn berchen ar fusnes arall yn Wolverhampton ac nad oedd Mr Singh, yr ymgeisydd, na hithau'n bwriadu symud i Gaerdydd. Cyflwynodd Mrs Singh Mr Zdrovak, a fyddai'n rheoli'r safle o ddydd i ddydd. Nid oedd modd i Mrs Singh gadarnhau a oedd Mr Zdrovak yn meddu ar drwydded bersonol. Derbyniodd Mrs Singh nad oedd hithau na Mr Singh wedi archwilio Mr Zdrovak i bennu a oedd ganddo profiad blaenorol o reoli neu weithio mewn safle drwyddedig, nac wedi gwirio a oedd wedi torri amodau trwyddedu yn y gorffennol. Fodd bynnag, fel un o amodau'r drwydded, byddai'r holl staff yn cael hyfforddiant ynghylch gwerthu alcohol.

Yn ystod y cwestiyni, nid oedd modd i Mr Singh, Mrs Singh na Mr Zdrovak restru unrhyw rai o'r amcanion trwyddedu.

Crynhoi

Nododd Jonathan Hill fod y safle newydd yn cynnig gweithredu yn yr un modd, mwy neu lai, â'r safleoedd sydd eisoes yn gweithredu yn yr ardal. Felly ni fydd tynnu'r hawl i werthu alcohol yn ei atal. Fodd bynnag, mae'r peryglon a phryderon trigolion lleol yn ymwneud â gwerthu alcohol yn unig.

Codwyd pryderon ynghylch rheoli'r safle o ddydd i ddydd gan na fyddai'r Goruchwylydd Safle Dynodedig yn bresennol. Nid yw'r unigolyn a enwebwyd i reoli'r siop yn rhugl yn y Saesneg ac nid oes unrhyw fanylion ynghylch hanes yr unigolyn hwn wedi dod i law'r Aelodau. Felly dangoswyd diffyg ymchwil neu bryder.

Roedd Mr Hill yn ystyried y byddai caniatáu i'r ymgeiswyr hyn gael trwydded safle ar gyfer y safle hwn yn gamgymeriad.

Nododd Mrs Singh ei bod wedi gwrando ar y pryderon a mynegwyd. Nid oedd yn cytuno bod diffyg sgiliau Saesneg yn golygu eich bod yn llai tebygol o gydymffurfio â'r gyfraith. Cadarnhaodd Mrs Singh nad oedd Mr Zdrovak wedi rheoli siop yn y gorffennol.

PENDERFYNNODD YR IS-BWYLLGOR:  wrthod y cais ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Arweiniad Adran 182 a Datganiad o Bolisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, gan fod yr Is-bwyllgor yn ystyried bod yr ymgeiswyr wedi methu â dangos y byddai modd iddynt gynnal yr amcanion trwyddedu.